2025-2028

CYNLLUN GWELLA YSGOL Y GRAIG

`

Ysgol Y Graig

Seilir y CGY hwn ar
Fframwaith Gwella Ysgol.

Y mae i'r fframwaith honno
bedwar maes allweddol:

Maes Fframwaith. 1: Arweinyddiaeth
Cydrannau:
1.1 Gweledigaeth Strategol
1.2 Addysgeg (Dysgu, Addysgu a'r Cwricwlwm)
1.3 Dysgu proffesiynol, arloesi a chydweithio
1.4 Staff ac Adnoddau
1.5 Systemau, polisïau a gweithdrefnau

Maes Fframwaith. 2: Dysgu ac Addysgu
Cydrannau:
2.1 Addysgeg
2.2 Dysgu proffesiynol, cydweithio ac arloesi

Maes Fframwaith. 3: Cwricwlwm
Cydrannau:
3.1 Pennu gweledigaeth (arweinyddiaeth ym maes dysgu a rheoli newid)

Maes Fframwaith. 4: Lles, Tegwch a Chynhwysiant
Cydrannau:
4.1 Cwricwlwm
4.2 Hybu Iechyd Da
4.3 Diogelu
4.4 Tegwch
4.5 Cynhwysiant

Cynllun Gwella Ysgol
2025 – 2028

Ysgol Y Graig, Llangefni

Ysgol y Graig

Amcanion

Amcanion Cyffredinol

Creu amgylchfyd ac awyrgylch hapus a diogel lle y gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.

Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr unigolion, y gymdeithas, yr Awdurdod Addysg a'r Llywodraeth.

Sicrhau cyflawniad gofynion Cwricwlwm i Gymru trwy roi'r cyfle i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial ymhob agwedd ar y cwricwlwm.

Cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl, waeth beth fo'i ryw, allu, crefydd neu hil.

Annog parch tuag at eiddo a phobl eraill a phwysleisio pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymddangosiad i bob disgybl.

Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel y gallant gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog.

Helpu pob plentyn i fod yn annibynnol, yn greadigol ac yn chwilfrydig trwy ddatblygu sgiliau meddwl, y gallu i brosesu gwybodaeth, rhesymu, ymholi a gwerthuso.

Amcanion Penodol

Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn ei bywyd a'i gwaith ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.

Meithrin datblygiad personol ac iechyd pob unigolyn a pharch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir, cred a diwylliant a sicrhau cyfleoedd cyfartal beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd.

Sicrhau y datblygir gallu pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg.

Sicrhau bod dilyniant a datblygiad yn y profiadau a'r gweithgareddau a ddarperir a bod cyfran helaeth o'r profiadau hynny yn adlewyrchu natur bywyd a diddordebau'r disgyblion.

Sicrhau bod pob maes yn rhoi sylw i'r Cwricwlwm Cymreig.

Galluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau allweddol gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau cwricwlaidd.

Sicrhau y defnyddir dulliau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau ymchwilgar, creadigol a bywiog, y gallu i gwestiynu a thrafod yn rhesymegol, i ddatrys problemau real ac i weithio'n annibynnol.

Darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a fydd o gymorth i ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Darparu cwricwlwm eang sy'n datblygu potensial llawn pob disgybl.

Annog cyswllt rhwng ysgolion:

â'r cartref
â'r gymuned
ag ysgolion eraill [meithrin, cynradd ac uwchradd]
â diwydiant a masnach
â'r Awdurdod Addysg ag asiantaethau perthnasol eraill.

YSGOL Y GRAIG
CYNLLUN GWELLA YSGOL
PRIF FLAENORIAETHAU
2025-2026

yn dilyn:

- Arolygiad Interim
- Hunan Arfarniad yr Ysgol
- Strwythur Rheoli Perfformiad

Canfyddiadau Adroddiad Hunan Arfarnu'r Ysgol 2024-25:

Blaenorieth 1: ADDYSGEG – Sefydlu egwyddorion y CS ym ml 3 – 6.
Sicrhau fod pob athro Bl3 – 6 yn darparu gweithgareddau pwrpasol cyfoethog mewn ardaloedd her o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn datblygu sgiliau annibynnol y disgyblion.

Blaenoriaeth 2: CYNLLUNIO
Mireinio cynlluniau tymor hir a thymor canol er mwyn sicrhau datblygiad yn nysgu yr holl ddisgyblion wrth ateb gofynion Cwriwlcwm i Gymru.

Blaenoriaeth 3: MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Sicrhau fod bron pob disgybl yn chwilfrydig fel eu bod yn gallu ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio.

Blaenoriaeth 4: **ADDYSGEG - GWAHANIAETHU (Blaenoriaeth Dalgylch)**
Ymateb i anghenion ein holl ddisgyblion ym maes Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
Sicrhau cysondeb a chontiniwm addysgu ar lawr dosbarth gan sicrhau fod mynediad i bob disgybl i sicrhau datblygiad a chynnydd.

BLAENORIAETHAU 2024-2025		
AROLYGIAD DIWETHAF – IONAWR 2019	**CANFYDDIADAU MONITRO / ARFARNU**	**CAMAU NESAF**
Argymhellion arolwg Estyn 01/2019 Arolwg Interim Tachwedd 2023 – ffocws ar rifedd yn drawsgwricwlaidd ac ysgrifennu estynedig	Arolwg Interim yn dangos gwelliant ers Arolwg Ionawr 2019 yn y meysydd rhifedd yn drawsgwricwlaidd ac ysgrifennu estynedig. Argymhellion eraill wedi eu gweithredu. Fodd bynnag adroddiadau monitro2024/25 yn dangos fod angen ailgynllunio ar gyfer ysgrifennu estynedig. Yr ysgol yn rhan o gynllun Singapore Maths ers Haf 2025.	Medi 2025: Ysgrifennu estynedig yn flaenoriaeth ysgol. Singapore Maths yn flaenoriaeth dalgylch
Blaenorieth 1: ADDYSGEG – Sefydlu egwyddorion y CS ym ml 3 – 6. Sicrhau bod pob athro Blwyddyn 3–6 yn darparu gweithgareddau pwrpasol a chyfoethog mewn ardaloedd her, o fewn ac y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er mwyn datblygu sgiliau annibynnol y disgyblion.	Mae canfyddiadau monitro'n dangos bod egwyddorion y Cwricwlwm Statudol (CS) ar waith yn nosbarthiadau Blwyddyn 3–6. Mae llais y plentyn yn gryfder amlwg. Mae gweithgareddau troelli'n sicrhau bod tasgau ffocws yn derbyn sylw priodol.	Angen sicrhau bod gweithgareddau pwrpasol yn cael eu paratoi'n ofalus. Angen sicrhau bod gweithgareddau yn yr ardaloedd awyr agored ar draws yr ysgol yn cynnig profiadau cyfoethog ac ystyrlon
Blaenoriaeth 2: CYNLLUNIO Mireinio cynlluniau tymor hir a thymor canol er mwyn sicrhau datblygiad yn nysgu yr holl ddisgyblion wrth ateb gofynion Cwriwlcwm i Gymru.	Mae'r offeryn cynllunio wedi'i greu ac wedi'i dreialu, gyda'r addasiadau priodol wedi'u gwneud yn dilyn adborth gan athrawon. Mae'r offeryn bellach yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan athrawon sy'n gweithio gyda phlant o dan 5 oed.	Ymestyn y defnydd rheolaidd o'r offeryn ar draws yr ysgol. Bydd angen monitro ei effeithiolrwydd drwy graffu ar waith y disgyblion.
Blaenoriaeth 3: MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sicrhau fod bron pob disgybl yn chwilfrydig fel eu bod yn gallu ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio.	Bu llawer o sylw'n cael ei roi i flaenoriaethau eraill yr ysgol ac felly ni wnaed llawer o waith wrth ddatblygi'r maes hwn. Fodd bynnag wrth graffu ar waith y disgyblion, daeth tystiolaeth fod angen sicrhau gwell dilyniant wrth adeiladu ar sgiliau blaenorol y dysgwyr.	Rhannu dogfen gyda'r athrawon sy'n amlygu'r datblygiad sgiliau gwyddonol.
Blaenoriaeth 4: **ADDYSGEG - GWAHANIAETHU (Blaenoriaeth Dalgylch)** Ymateb i anghenion ein holl ddisgyblion ym maes Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Sicrhau cysondeb a chontiniwm addysgu ar lawr dosbarth gan sicrhau fod mynediad i bob disgybl i sicrhau datblygiad a chynnydd.	Bu'r cydweithio rhwng ysgolion y Dalgylch yn gadarnhaol iawn, gyda'r amcanion yn cael eu diwallu'n effeithiol ar lawr y dosbarth ac yn dechrau gwreiddio'n naturiol. Roedd y sleidiau a baratowyd gan bob ysgol yn adnodd gwerthfawr, gan amlygu'r hyn a weithiodd yn dda yn yr ysgolion. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan holl staff yr ysgolion. Gwerthfawrogwyd y cyfle i weld dulliau ac	Er mwyn adeiladu ar y gwaith hyd yma, bydd y grŵp yn ymchwilio ymhellach i ystod o strategaethau gwahaniaethu effeithiol, gan gynnwys dulliau sy'n

Nod: Sicrhau a chysoni strategaethau Metawybyddiaeth ac adborth ar draws y continwwm 3-16.	adnoddau amrywiol. Mae'r staff dysgu wedi gweld yr adnoddau hyn fel sbardun ac ysgogiad i'w defnyddio yn eu dosbarthiadau eu hunain wrth wahaniaethu.	cefnogi dysgwyr ar draws y sbectrwm gallu a chyd-destunau amrywiol. Byddwn yn archwilio'r modd y gellir gweithredu'r strategaethau hyn yn ymarferol ar lawr y dosbarth, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn berthnasol i anghenion ein dysgwyr. Bydd y grŵp yn casglu enghreifftiau o arfer da, yn cynnal trafodaethau proffesiynol, ac yn datblygu adnoddau i gefnogi gweithredu cyson ar draws ysgolion y Dalgylch. Nod y camau nesaf yw cryfhau'r ddealltwriaeth o wahaniaethu ymysg staff, ac i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at y profiadau dysgu gorau posibl.
BLAENORIAETHAU'R CYNGOR YSGOL 2024 – 25		
Siarter Iaith	Parhau i wreiddio'r Siarter Iaith ym mywyd a gwaith yr ysgol. Yr ysgol wedi derbyn achrediad Arian.	
Iechyd a Ffitrwydd	Llysgenhadon i baratoi rhaglen gweithgareddau corfforol ar gyfer holl blant yr ysgol.	
Pontio Bl 6 a 7	Cynrychiolaeth o Gyngor Ysgol y Griag wedi cydweithio gydag aelodau o Cyngor Ysgolion y Dalgylch wrth greu gweithgareddau / tasgau pontio ar gyfer Bl 6 /7	

Prif Flaenoriaethau CGY 2025-26 yw:

Blaenorieth 1: YSGRIFENNU ESTYNEDIG
Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn profiadau cyfoethog i ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau pwrpasol.

Blaenoriaeth 2: Y Gymraeg
Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu drwy'r Gymraeg â staff a'u cyfoedion, o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Blaenoriaeth 3: ADDYSGEG - GWAHANIAETHU (Blaenoriaeth Dalgylch)
Parhau i sicrhau cysondeb a chontiniwwm addysgu gan ddatblygu strategaethau addysgegol ieithyddol mwyaf effeithiol er mwyn helpu pob disgybl i lwyddo.

Blaenoriaeth 4: HYFEDREDD MATHEMATEG (Blaenoriaeth Dalgylch)
Datblygu dealltwriaeth yr holl athrawon o egwyddorion Singapore Maths er mwyn datblygu sgiliau hyfedredd llawer o'r disgyblion.

Blaenoriaeth 5: PRESENOLDEB
Gweithredu er mwyn sicrhau fod presenoldeb yr ysgol yn codi o 91.53% i 94%

Blaenoriaethau CGY – Cynllun Tair Blynedd

Bydd yr agweddau isod yn flaenoriaethau yng Nghynllun Gwella'r Ysgol. Fodd bynnag, bydd yn bosibl y bydd rhaid addasu rhai blaenoriaethau wrth ymateb i ganfyddiadau monitro cynnydd yr ysgol.

Datganiad Datblygu 2023 - 2026		
2025-2026	**2026-2027**	**2027-2028**
Ysgrifennu Estynedig: Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn profiadau cyfoethog i ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau pwrpasol.	**Darllen–** Sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn y Gymraeg i safon briodol ar gyfer eu hoedran.	**Digidol**: Sicrhau bod bron pob disgybl yn defnyddio trawsdoriad o sgiliau digidol addas i'w hoedran ar gyfer cyflwyno gwaith.
Y Gymraeg – Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu drwy'r Gymraeg â staff a'u cyfoedion, o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.	**Y Gymraeg –** Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu drwy'r Gymraeg â staff a'u cyfoedion, o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.	**MDaPH Celfyddydau Mynegiannol** - Sicrhau bod pob athro'n cynllunio gweithgareddau cyfoethog rheolaidd o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Celfyddydau Mynegiannol.
Addysgeg (Dalgylch) - Parhau i sicrhau cysondeb a chontiniwwm addysgu gan ddatblygu strategaethau addysgegol ieithyddol mwyaf effeithiol er mwyn helpu pob disgybl i lwyddo.	**Addysgeg (Dalgylch) -** Parhau i sicrhau cysondeb a chontiniwwm addysgu gan ddatblygu strategaethau addysgegol ieithyddol mwyaf effeithiol er mwyn helpu pob disgybl i lwyddo.	**Addysgeg (Dalgylch) -** Parhau i sicrhau cysondeb a chontiniwwm addysgu gan ddatblygu strategaethau addysgegol ieithyddol mwyaf effeithiol er mwyn helpu pob disgybl i lwyddo.
Hyfedredd Mathemateg (Dalgylch) - Datblygu dealltwriaeth yr holl athrawon o egwyddorion Singapore Maths er mwyn datblygu sgiliau hyfedredd llawer o'r disgyblion.	**Hyfedredd Mathemateg:** Sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn wrth gymhwyso sgiliau rhifedd yn drawsgwricwlaidd.	**ADY** – Sicrhau bod pob athro yn gwahaniaethu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion pob disgybl o fewn eu gofal.
Presenoldeb: Gweithredu er mwyn sicrhau bod presenoldeb yr ysgol yn codi o 91.53% i 94%	**Presenoldeb**: Gweithredu er mwyn sicrhau bod presenoldeb yr ysgol yn codi o 94% i 94.5%	**Presenoldeb**: Gweithredu er mwyn sicrhau bod presenoldeb yr ysgol yn codi o 94.5% i 95%

Blaenorieth 1: Ysgrifennu Estynedig:
Nôd: Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn profiadau cyfoethog i ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o gyd-destunau pwrpasol.

RHESWM DROS Y FLAENORIAETH →	MEWNBWN CEFNOGAETH →	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD →	ALLBWN TYMOR BYR →	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Mae monitro gwaith disgyblion wedi amlygu bod angen cynyddu cyfleoedd ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae rhai disgyblion yn dangos potensial uchel, ond nid yw'r cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig mewn cyd-destunau pwrpasol yn ddigon cyson ar draws yr ysgol. Mae datblygu'r sgiliau hyn yn hanfodol ar gyfer mynegi syniadau'n glir, datblygu geirfa, a chynyddu hyder mewn cyfathrebu ysgrifenedig.	• Hyfforddiant mewn dulliau effeithiol o gynllunio a chyflwyno ysgrifennu estynedig • Rhannu arfer da rhwng athrawon a chydweithio ar gynlluniau gwersi • Defnyddio modelau ysgrifennu o ansawdd uchel i ysbrydoli disgyblion • Monitro ansawdd gwaith disgyblion a chynnig adborth adeiladol • Cefnogaeth gan arweinwyr pwnc a chydlynydd llythrennedd	• Cynllunio cyfleoedd ysgrifennu estynedig ar draws y Maes Dysgu a Phrofiad • Darparu modelau ysgrifennu o ansawdd uchel i ysbrydoli disgyblion • Hyrwyddo dulliau effeithiol o gynllunio, drafftio ac adolygu ysgrifennu • Monitro ansawdd ysgrifennu drwy samplu gwaith a thrafodaethau proffesiynol • Rhannu arfer da rhwng athrawon i sicrhau cysondeb a safonau uchel • Creu portffolio ysgrifennu estynedig wedi'i raddoli'n ôl oedran.	1. Cynnydd yn nifer y cyfleoedd ysgrifennu estynedig a welir yn llyfrau disgyblion 2. Gwell strwythur a chynnwys mewn ysgrifennu disgyblion 3. Gwell dealltwriaeth gan staff o sut i gynllunio ar gyfer ysgrifennu estynedig 4. Ymgysylltiad gwell gan ddisgyblion mewn tasgau ysgrifennu	• Asesiadau mewnol yn dangos cynnydd yn safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol • Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ac yn annibynnol mewn amrywiaeth o gyd-destunau • Adroddiadau monitro yn dangos bod pob athro'n cynllunio cyfleoedd cyfoethog ar gyfer bron pob disgybl yn ei ofal • Adroddiadau monitro yn dangos cynnydd yn sgiliau'r

				disgyblion o un flwyddyn i'r llall

BLAENORIAETH 2: Y Gymraeg
Nôd: Sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu drwy'r Gymraeg â staff a'u cyfoedion, o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

HER RHESWM DROS Y FLAENORIAETH	MEWNBWN CEFNOGAETH	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD	ALLBWN TYMOR BYR	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth yr ysgol ac yn allweddol i gynnal ethos dwyieithog cryf. Mae monitro yn ystod 2024/2025 wedi amlygu bod rhai disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf mewn gwersi, ond llai o gyfathrebu naturiol yn y Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae angen annog defnydd cyson a hyderus o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac academaidd, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n naturiol â staff a'u cyfoedion.	• Hyfforddiant i staff ar strategaethau i annog defnydd naturiol o'r Gymraeg ac i ymestyn geirfa. • Sicrhau bod pob aelod o staff yr ysgol yn gweithredu'r cynllun "Siarter Iaith" i hyrwyddo defnydd cymdeithasol • Cydlynwyr iaith yn cydlynu gweithgareddau a monitro cynnydd • Cydweithio ag ysgolion y dalgylch a thu hwnt i rannu arfer da • Cydweithio â staff yr Uned Cyfathrebu a Rhyngweithio i uwchsgilio cymorthyddion ar	• Sicrhau bod staff yn modelu defnydd cyson o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac academaidd • Cynnal gweithgareddau penodol i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth (e.e. clwb brecwast, gemau iaith) • Monitro defnydd y Gymraeg drwy arsylwadau anffurfiol a holiaduron disgyblion • Cynnwys targedau iaith penodol mewn cynlluniau gwersi a chynlluniau unigol	• Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol • Gwell hyder disgyblion wrth gyfathrebu â staff yn y Gymraeg • Tystiolaeth o gynnydd mewn arsylwadau anffurfiol ac adborth gan staff • Gwell amlygiad o'r Gymraeg ar draws yr ysgol	• Diwylliant ysgol lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol ac yn gyson gan y rhan fwyaf o ddisgyblion • Gwell canlyniadau asesu iaith Gymraeg ar draws y cyfnodau allweddol • Holiadur Siarter Iaith yn dangos cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol

	ddatblygu geirfa ar lawr y dosbarth.	• Dathlu llwyddiannau iaith drwy wobrau, tystysgrifau neu ddigwyddiadau arbennig		
Cynllun Y Gymraeg 2025 / 2026 y Dalgylch i ddilyn	•	•	•	•

ENW'R CLWSTWR: Llangefni

Blaenoriaeth 2025 - 2026: Parhau i sicrhau cysondeb a chontiniwwm addysgu gan ddatblygu strategaethau addysgegol ieithyddol mwyaf effeithiol er mwyn helpu pob disgybl i lwyddo.

NOD Beth wnawn ni?	CYFRIFOLDEB Pwy fydd yn gwneud beth?	GWEITHREDU Sut fyddwn ni yn ei wneud?	AMSERLEN Pryd fyddwn ni yn ei wneud?	LLWYDDIANT Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?
Gwerthuso *'Ffurflenni Mesur Effaith'* staff yr ysgolion.	Aelodau'r grŵp Addysgeg yn arwain staff eu hysgolion	trafod yn yr ysgolion ac adnabod strategaethau craidd sydd wedi dechrau creu effaith.	pob ysgol i'w cwblhau erbyn Tachwedd 7, 2025	Adnabod pa strategaethau Craidd sydd wedi cael eu cyflwyno ar lawr dosbarth yn yr ysgolion.
Adnabod y strategaethau Craidd sydd angen eu rheadru oddi fewn i'r dalgylch.	Arweinwyr grŵp Addysgeg. Athrawon ysgolion unigol.	Llunio holiadur Google forms i'r staff dysgu i ddarganfod amlder strategaethau a mesur effaith. Pob ysgol i gwblhau'r holiadur.	Cwblhau erbyn Hydref 17, 2025	Egwyddorion addysgeg ar waith yn effeithiol ac yn gyson gan sicrhau gwell safonau dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol.
Dadansoddi holiaduron	Arweinwyr grŵp Addysgeg (GP i goladu Data holiaduron i'w cyflwyno)	Trafod canfyddiadau a'r strategaethau craidd yn deillio o ymatebion yr holiaduron.	Cyfarfod 07/11/25	Strategaethau Craidd wedi cael eu hadnabod, ac ar waith yn y dosbarthiadau.

NOD Beth wnawn ni?	CYFRIFOLDEB Pwy fydd yn gwneud beth?	GWEITHREDU Sut fyddwn ni yn ei wneud?	AMSERLEN Pryd fyddwn ni yn ei wneud?	LLWYDDIANT Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?
Rheadru canfyddiadau gyda staff.	Arweinwyr Grŵp Addysgeg.	Rheadru yn ystod HMS noson hwyr wythnosol. Cyflwyno canfyddiadau a strategaethau craidd. Cynnal trafodaethau proffesiynol i lunio cynllun gweithredu byr fesul ysgol gan nodi pa strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgolion.	Erbyn 6.11.25	Enghreifftiau o weithredu mewn dosbarthiadau. Hybu ein disgyblion i fod yn llai dibynnol ar oedolion gan ddefnyddio clipau cymorth o'r wefan yn effeithiol.
Sicrhau fod strategaethau craidd ar waith ymhob dosbarth.	Holl athrawon y Clwstwr. Cymorthyddion.	Cyfnod o dreialu, o ddatblygu a mireinio ar lawr y dosbarth. Cyfle i athrawon drafod gydag Arweinwyr Addysgeg eu hysgol. Cydweithio gyda Chymorthyddion fel bod y strategaethau yn cael eu diwallu o fewn ymyrraeth / grwpiau bychan.	Erbyn diwedd tymor y Gwanwyn.	Cysondeb ar draws y Dalgylch o strategaethau Craidd Addysgegol i sicrhau fod disgyblion yn datblygu i fod yn annibynnol wrth gwblhau tasgau. Adborth o'r cyfarfodydd yn yr ysgolion yn llywio'r camau nesaf.

NOD Beth wnawn ni?	CYFRIFOLDEB Pwy fydd yn gwneud beth?	GWEITHREDU Sut fyddwn ni yn ei wneud?	AMSERLEN Pryd fyddwn ni yn ei wneud?	LLWYDDIANT Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?
Llunio holiadur i'r disgyblion. Sian Land i gynnal Cyfarfod Cyngor Ysgolion y Dalgylch i drafod strategaethau sydd wedi eu cyflwyno.	Grŵp Addysgeg. (holiadur) Sian Land i gadeirio cyfarfod Cyngor Ysgolion y Dalgylch.	Rhannu data holiaduron gyda Cyngor Ysgolion y Dalgylch.	Tymor y Gwanwyn.	asesu effaith y strategaethau ar eu profiad dysgu (y disgyblion)
Cyfarfodydd i fonitro ac adolygu'r flaenoriaeth.	Grŵp Addysgeg.	Cyfle i ail-ymweld â'r flaenoriaeth. Gwerthuso ac ystyried pa adnoddau y gellid eu huwchlwytho ar wefan Dalgylch.	Cyfarfodydd pob hanner tymor.	Arlwy ehangach o adnoddau ar y wefan Dalgylch. Addasiadau / camau pellach wedi cymryd lle i sicrhau effeithiolrwydd.
Cadeirydd Grŵp Addysgeg i adrodd yn nôl yn ystod cyfarfod Penaethiaid y Dalgylch.	SL - Cadeirydd y grŵp	Rhannu data holiaduron, canfyddiadau i ymchwilio. Datblygiadau o fewn y grŵp.	Tymor yr Hydref Tymor y Gwanwyn Tymor yr Haf	Cysondeb Dalgylchol o safbwynt gweithredu'r flaenoriaeth.

NOD Beth wnawn ni?	CYFRIFOLDEB Pwy fydd yn gwneud beth?	GWEITHREDU Sut fyddwn ni yn ei wneud?	AMSERLEN Pryd fyddwn ni yn ei wneud?	LLWYDDIANT Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?
Ail gyflwyno'r holiadur strategaethau Addysgegol.	Grŵp Addysgeg. Penaethiaid	Pob athro ymhob ysgol yn gyfrifol am gwblhau'r holiadur.	Tymor yr Haf	Cynnydd mewn llawer o'r disgyblion yn defnyddio strategaethau a chynnydd yn annibyniaeth y disgyblion.
Portffolio Addysgeg	Clwstwr	Creu portffolio digidiol o strategaethau Addysgeg ar dempled cytunedig y clwstwr e.e. Clipiau fideo o arferion da. templedi cynllunio, enghreifftiau o strategaethau craidd. Rhannu'r portffolio yng ngwefan Dalgylch Cefni.	Tymor yr Haf	Strategaethau Addysgeg wedi eu rheadru ar draws yr ysgolion o fewn y Dalgylch. Arferion effeithiol ar waith yn barhaus ac yn cyfoethogi ein disgyblion ar y daith i lwyddo yn ieithyddol.

Blaenoriaeth 4: HYFEDREDD MATHEMATEG (Blaenoriaeth Dalgylch)
Nôd: Datblygu dealltwriaeth yr holl athrawon o egwyddorion Singapore Maths er mwyn datblygu sgiliau hyfedredd llawer o'r disgyblion.

HER RHESWM DROS Y FLAENORIAETH →	MEWNBWN CEFNOGAETH →	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD →	ALLBWN TYMOR BYR →	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Mae datblygu strategaethau Singapore Maths yn ffocws ymchwil clwstwr athrawon (o bob ysgol) yn Nalgylch Cefni Sut mae addysgu drwy ddefnyddio'r dull CDH (Concrit; Darluniadol; Haniaethol) yn effeithio ar hyder, meddylfryd a dyfnder dysgu ein disgyblion? Bydd y clwstwr yn gweithio ar ymchwilio, cyflwyno, hybu defnydd strategaethau a camau strwythur gwers sydd wedi'u profi fel modd i ddyfnhau dealltwriaeth a gafael disgyblion o amrywiaeth allu o gysyniadau mathemategol a'r 5 hyfedredd mathemategol. Bydd ffocws ar ddefnyddio'r dull CONCRIT, DARLUNIADOL ac HANIAETHOL a meithrin defnyddio NEWYDDIADURO (Journaling) i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac ehangu eu strategaethau i ddatrys problemau.	Hyfforddiant ar gyfer athrawon Blwyddyn 6. Trefnu gyriant cyffredin (shared drive) i gadw 'tasgau angori' a gwaith y clwstwr. Athrawon Blwyddyn 6 (o dan arweiniad y cydlynydd rhifedd/mathemateg) i raedru gwybodaeth i weddill staff yr ysgol. Cydweithio gydag athrawon ysgolion y Dalgylch, gan gynnwys YGLl Prynu Adnoddau gan gynnwys app sy'n addas i oed a cam dealltwriaeth	Gosod llinell sylfaen gan ddefnyddio arf diagnostig ac ail-adrodd ddiwedd y cyfnod ymchwil. Llunio holiadur disgyblion a trosolwg athrawon gyda ffocws ar lefel hyder a mwynhad, gwybodaeth o adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio a'u hymagwedd a parodrwydd i fentro pethau newydd. Creu astudiaeth achos os yn gymwys. Creu, coladu a chanfod tasgau angori o ansawdd uchel a'u cadw ar y gyriant clwstwr. Awdit a rhannu adnoddau ffisegol yn seiliedig ar oed a cam. Defnyddio'r strwythur gwers y dull CPA ac addasu yn ôl y cyd-destun. Gwneud defnydd o amrywiaeth o strategaethau o'r mewnbwn arbenigol e.e. creu cymeriad, gwaith grŵp	Cyafthrebu effeithiol wedi arwain at gwell dealltwriaeth bron pob athro o'r drefn addysgu yn unol â dull Singapore Maths Gwell darpariaeth lefel isel / nenfwd uchel. Cynydd mewn ymglymiad a dealltwriaeth o ganlyniad i ddefnyddio adnoddau o safon uchel. Cysoneb a gwell strwythur mewn llawer o wersi lle mae rhyddid i ymchwilio yn cael ei hyrwyddo. Llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn gallu meddwl yn annibynnol wrth ddatrys problem a chymhwyso ddulliau amrywiol i'w datrys. Llawer o ddisgyblion bl6 yn gallu ymchwilio ac arbrofi gyda strategaethau gwahanol a chofnodi eu dealltwriaeth.	Data asesiadau a profion mewnol disgyblion Bl 6 yn profi effeithiolrwydd camau'r dull CPA a'r strategaethau a ddefnyddiwyd. Hygyrchedd i bob ysgol clwstwr Lleihau baich gwaith athro / athrawon. Sicrhau tasgau o ansawdd uchel. Sicrhau trosglwyddo llyfn a dilyniant o fewn o fewn y clwstwr. Dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Staff yn gallu gwneud y dysgu yn fwy gweledol. Cynnydd mewn annibyniaeth disgyblion. Sicrhau cyfleoedd i ddangos gwahanol ddulliau o ddatrys problem. Cysondeb o fewn y clwstwr. Cynnydd mewn hyder a chymhwysedd staff a disgyblion.

		a rolau penodol, croesawu gwahanol ddulliau i ganfod ateb. Arbrofi gyda gwahanol ddulliau o newyddiadura (journalling) i gael darlun o feddwl a gafael disgyblion o iaith a chonfensiwn mathemategol. Pob ysgol i barhau i ddatblygu dysgu proffesiynol o gwmpas y 5 hyfedredd.	Pob athro/athrawes Bl6 a Bl7 wedi ymchwilio'r 5 hyfedredd gyda cydweithwyr ymhob ysgol.	Hyder a gwytnwch disgyblion i ddefnyddio strategaethau gwahanol i ddatrys problem. Hyder a dealltwriaeth gynyddol ymysg disgyblion. Meddylfryd twf positif. Adnabod cynnydd a datblygiad disgyblion a'r cam nesaf yn eu dysgu. Adnabod a gwrthdroi camsyniadau. Tîm ymhob ysgol gyda gwell gafael a dealltwriaeth o'r 5 hyfedredd.

Blaenoriaeth 5: PRESENOLDEB (gweler cynllun gweithredu manwl sy'n dilyn)
Nôd: Gweithredu er mwyn sicrhau fod presenoldeb yr ysgol yn codi o 91.53% i 94%

HER RHESWM DROS Y FLAENORIAETH	MEWNBWN CEFNOGAETH	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD	ALLBWN TYMOR BYR	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Mae presenoldeb disgyblion yn hanfodol ar gyfer sicrhau cynnydd academaidd, lles emosiynol a datblygiad cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae presenoldeb yr ysgol ar 91.53%, sy'n is na'r targed cenedlaethol. Mae angen gweithredu strategol i godi'r ffigur hwn i 94%, gan sicrhau bod disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd dysgu a phrofiadau ysgol.	• Cydweithio ag arweinwyr lles a swyddogion presenoldeb lleol • Defnyddio systemau tracio presenoldeb effeithiol i nodi patrymau a risgiau • Cefnogaeth gan rieni drwy gyfathrebu clir a chyson • Ymgyrchoedd ysgol gyfan i hyrwyddo gwerth mynychu'n rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cydweithiol â Chyngor Ysgol y Dalgylch. • Mynediad at wasanaethau cefnogol ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu heriau ee Tîm Ysgolion Bro	• Adolygu polisïau presenoldeb a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n gyson • Cyflwyno negeseuon cadarnhaol am bwysigrwydd presenoldeb drwy rannu fideo Cyngor Ysgol y Dalgylch, arddangosfeydd, gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth • Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni disgyblion â phresenoldeb isel • Gwobrwyo presenoldeb da drwy systemau canmoliaeth a chydnabyddiaeth • Monitro data presenoldeb yn	• Gwell ymwybyddiaeth gan staff, disgyblion a rhieni o bwysigrwydd presenoldeb • Cynnydd cychwynnol yn lefelau presenoldeb mewn grwpiau penodol ee plant bregus • Tystiolaeth o weithredu cyson ar draws yr ysgol • Gwell cyfathrebu rhwng ysgol a theuluoedd	• Presenoldeb cyffredinol yr ysgol wedi codi i 94% neu uwch erbyn diwedd y flwyddyn academaidd • Gostyngiad mewn absenoldeb heb esboniad • Gwell canlyniadau academaidd a lles disgyblion

		wythnosol a chynnal trafodaethau staff i dargedu cefnogaeth		

CYNLLUN GWEITHREDU PRESENOLDEB YSGOL GYFAN Medi 2025 – Gorffennaf 2026

Blaenoriaeth	Tasgau / Gweithredu	Pa bryd?	Pwy?
Dileu Marciau Coll	• Pob athro Dosbarth i wneud y gofrestr pob bore a phob prynhawn yn cyd-fynd â'r Polisi Presenoldeb.	Parhaus – dyddiol 8:55am a 1pm. Gwirio – wythnosol.	Athrawon Gwirio: Dirprwy
Monitro Presenoldeb	• Monitro presenoldeb yr ysgol gyfan drwy edrych ar y marciau 'O', 'I', 'M', 'U' yn benodol. • Llythyru fel bo'n briodol ac yn dilyn trafodaeth gyda'r SLIA: Llythyr hwyr, Llythyr 1, Llythyr 2, Llythyr meddygol • Newid 'I' i 'O' os nad ydym yn derbyn llythyr doctor / eglurhad a gymeradwyir am absenoldeb salwch. • Cofnodi gweithredoedd ar y daenlen tracio presenoldeb	Pythefnosol Pythefnosol – cyfarfod gyda'r SLIA pan ar gael i gadarnhau'r llythyrau a anfonir. Wrth fonitro'n bythefnosol / dyddiol lle bo'n bosib. Pythefnosol / yn ol y galw.	Dirprwy Dirprwy Swyddogion Gweinyddol / Dirprwy Dirprwy
Gwobrwyo wythnosol	• Cynnal trafodaethau gyda grŵp o blant o bob Dosbarth (Cyngor Ysgol) i benderfynu ar system wobrwyo wythnosol. • Cwpan i Graig Fach a Graig Fawr, a fydd yn symud o ddosbarth i ddosbarth, yn ddibynnol ar yr enillwyr pob wythnos. • Rhannu canlyniadau gyda'r ysgol gyfan ac ar SeeSaw i'r rhieni.	Medi 2025 Dyddiau Gwener	Dirprwy / Arweinydd Cyngor Ysgol Dirprwy
Gwella presenoldeb i gyrraedd 94% neu uwch ym mhob dosbarth	• Llythyr cychwyn blwyddyn yn nodi'r targed ar gyfer y rhieni; i'w rannu drwy SeeSaw.	Wythnos gyntaf Medi 2025 Wythnos gyntaf Medi 2025	Pennaeth / Dirprwy Athrawon dosbarth

	• Rhannu fidio'r dalgylch yn annog presenoldeb gyda'r ysgol gyfan. Trafodaeth ddosbarth. • Sicrhau'r ethos gywir ym mhob dosbarth fel bod disgyblion yn awyddus i ddysgu.		Holl staff
Wal Presenoldeb	• Arddangos presenoldeb wythnosol a thymhorol. • Targed yr ysgol yn glir. • System wobrwyo wedi'i harddangos.	Ar gyfer Medi 2025	Dirprwy / Cymorthyddion
Gwobrwyo tymor hir	• Tystysgrif 100% am dymor cyfan a gwobr. • Tystysgrif 100% am flwyddyn gyfan a gwobr.		

IS -FLAENORIAETHAU ERAILL 2025-2026		
ÎS-FLAENORIAETHAU	**AMSERLEN**	**DEILLIANNAU**
Cynllunio Sicrhau bod pob athro'n gwneud defnydd rheolaidd o'r offeryn cynllunio	Yn wythnosol	Mae gwaith disgyblion yn dangos cynnydd mewn sgiliau o un flwyddyn i'r llall. Mae trawsdoriad o sgiliau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn amlwg yng ngwaith y disgyblion.
Tracio Cynnydd Dysgwyr Sicrhau fod yr holl athrawon yn bwydo canlyniadau asesiadau'n rheoliadd i'r offeryn tracio cynnydd er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ohono wrth fesur cynnydd grwpiau o ddysgwyr.	Bwydo asesiadau cychwynnol erbyn 07/11/2025 UDRh i fontiro a dadansoddi data 11/11/2025 Bwydo asesiadau erbyn 20/03/2026 ac UDRh i fontiro a dadansoddi data 24/03/2026 Bwydo asesiadau erbyn 19/06/2026 ac UDRh i fontiro a dadansoddi data 23/06/2026	Y tîm arweinyddol yr ysgol yn gwybod sut mae gwahanol grwpiau o ddywgyr yn perfformio ac yn gallu defnyddio'r data er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau penodol.
Iechyd a Diogelwch Sicrhau fod yr adeilad yn ddiogel ar gyfer holl rhanddeiliaid sy'n ei defnyddio. Sicrhau fod asesiadau risg newydd ar gyfer Graig Fach wedi eu creu	Panel Iechyd a Diogelwch yn monitro yn dymhorol: 12/09/2025 15/01/2026 23/04/2026	Lleihad yn nifer achosion o 'near miss' ac adroddiadau ADIR 1. Holl blant yn ddiogel ar ddechrau a diwedd y dydd.
Ysgol sy'n hunan wella **1)Llyfryn Monitro Dalgylch Digidol** Sicrhau bod pob athro yn gwneud defnydd rheolaidd o'r llyfryn dalgylch er mwyn gwerthuso a myfyrio ar ei berfformiad ei hun. Bydd y llyfryn yn sail i drafodaeth broffesiynol gyda'r UDRh, ac yn bwydo i mewn i lyfryn monitro'r dalgylch gyda'r bwriad o lywio blaenoriaethau cytûn. 2) Datblygu rôl rhanddeiliaid yn y broses hunanarfarnu drwy ddefnyddio ymweliadau dysgu ac holiaduron Microsoft Forms er mwyn casglu barn eraill. Yna, sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu ar y canfyddiadau.	Pennaeth i rannu'r llyfryn digidol cyn diwedd mis Medi 2025 Holiaduron yn cael eu rhannu gyda staff a rhieni. Trefnu ymweliadau dysgu ar gyfer Llywodraethwyr drwy gydol y flwyddyn.	Arweinwyr yr ysgol yn adnabod yn dda cryfderau a gwendidau'r ysgol Rhieni a gofalwyr yn gwybod beth yw blaenoriaethau'r ysgol ac yn deall pam eu bod yn flaenoriaethau ar gyfer eleni. Ym mis Mehefin holl rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at drafodaeth agored am flaenoriaethau 2026 – 2027.

CYNLLUN GWEITHREDU CGY HYDREF – RHAGFYR 2025

Blaenoriaeth	Tasgau / Gweithredu	Pa bryd?	Pwy?
Ysgrifennu Estynedig	• Creu cynllun / rhestr o ffurfiau ysgrifennu estynedig ac yna ei rannu gyda'r holl athrawon • Adrannu yn cyfarfod i drafod sampl o waith • Monitro ysgrfiennu estynedig ar draws yr ysgol • Dechrau casglu arferion da i'w cynnwys mewn portfolio	07/10/2025 Wythnos yn cychwyn 10/11/2025 20/11/2025 20/11/2025	RhGP a SR Athrawon RhGP / SR
Cynllunio	• Atgoffa pawb o'r angen i ddefnyddio'r offeryn cynllunio wrth baratoi gwaith / trafod gwaith o fewn cyfnodau CPA	Wythnosol / bob pythefnos	Athrawon / cymorthyddion
Y Gymraeg	• Creu Cynllun Gweithredu Siarter Iaith • Trefnu hyfforddiant i staff ar fodelu iaith (nos Fawrth) • Creu strwythur cyflwyno gemau buarth • Bl 2 – 6 yn cwblhau holiadur Siarter Iaith	Erbyn diwedd mis Medi I'w gadarnhau Erbyn diwedd mis Medi I'w gadarnhau	RhGP / SR MLR/RhGP/SR RhGP / SR athrawon
Presenoldeb	• Rhannu fideo a posteri'r Cyngor Dalgylch Ysgol • Monitro presenoldeba gwobrwyo dosbarthiadau • Cyfarfod gyda'r Swyddog Lles Addysg	05/09/2025 Bob dydd Gwener Wythnosol	ETh
Ymateb i holiaduron rhieni	• Rhannu canfyddiadau a gweithredu pellach gyda rhieni	12/09/2025	
